**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Children, Young People and Education Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Huw Lewis AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Julie James AM
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

29 Hydref 2014

Annwyl Weinidogion

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 23 Hydref 2014 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Diben y llythyr hwn yw tynnu sylw at y materion allweddol a nododd y Pwyllgor yn ystod ei waith craffu.

Caiff y llythyr hwn ei rannu â'r Pwyllgor Cyllid, i'w helpu gyda'i waith craffu cyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani yn y llythyr hwn cyn gynted ag y bo modd, er mwyn llywio'r ddadl derfynol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16.

**Blaenoriaethu a'r Grant Amddifadedd Disgyblion**

1. Nododd y Pwyllgor y "blaenoriaethu clir", i dorri'r cysylltiad rhwng tan-gyrhaeddiad a thlodi, a bod rhan sylweddol o ddyraniad eich cyllideb yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r mater hwn. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw asesiad yr ydych wedi'i wneud ar effaith eich penderfyniad i flaenoriaethu'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar eich dwy brif flaenoriaeth arall.**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg / Children, Young People and Education Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : CYPCommittee@wales.gov.uk

2. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y dyraniad ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2015-16 wedi'i gynyddu i £82,046,000. O ganlyniad, bydd y swm a gaiff pob ysgol ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynyddu o £918 i £1,050. Bydd y swm hwn fesul disgybl yn cynyddu ymhellach i £1,150 yn 2016-17.

3. Mae eich papur yn nodi, o gyfanswm y swm a ddyrannwyd ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion, mae £3,800,000 wedi'i ddyrannu i ymestyn y rhaglen i blant dan 5 mlwydd oed. **Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am bwy fydd yn gymwys i gael y ddarpariaeth hon e.e. disgyblion dosbarthiadau derbyn, disgyblion dosbarthiadau meithrin, neu blant mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar eraill, a'r sail ar gyfer cyfrifo'r costau o £3,800,000.**

4. Yn ystod ein sesiwn graffu, ailadroddwyd eich ymrwymiad i 'adfachu' arian Grant Amddifadedd Disgyblion sydd wedi cael ei ddefnyddio'n amhriodol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adroddiad drafft ar y gwerthusiad o sut y mae'r rhaglen Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei dehongli a'i rhoi ar waith, yn ogystal â'i heffaith ar berfformiad disgyblion ac arferion ysgolion, wedi'i gyhoeddi ar 22 Hydref. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad, maes o law, ar y broses ar gyfer adennill arian Grant Amddifadedd Disgyblion ac am y wybodaeth ddiweddaraf o ran a ydych yn tybio ei bod yn angenrheidiol ei adennill ai peidio.**

**Arian diogelu o 1% ar gyfer ysgolion**

5. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r esboniad a roddwyd yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r gyllideb o ran sut y mae'r Ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael ei gyflawni. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu eich ymrwymiad i lunio a chyhoeddi dadansoddiad o'r gwahanol elfennau cyllido sy'n rhan o'r 1%.

6. Yn eich papur, rydych yn dweud:

> "Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol, drwy'r ffurflenni monitro, roi tystiolaeth bod eu gwariant a gyllidebwyd ar ysgolion yn cynyddu yn unol â'r elfen cyllid Llywodraeth Leol o'r arian diogelu o 1% (net o grantiau penodol, ac yn caniatáu ar gyfer addasiadau yn nifer y disgyblion). Mae'r data monitro a gafwyd gan Awdurdodau Lleol hyd at 2014-15 yn dangos bod pob Awdurdod Lleol naill ai wedi cyflawni neu wedi rhagori ar yr ymrwymiad o 1%."

7. Nodwn fod y wybodaeth am y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 yn dangos cynnydd o 0.83% (£72.0 miliwn) yn yr arian sydd wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol rhwng 2010-11 a 2015-16 at y diben hwn. **Mae'r**

**Pwyllgor yn gofyn am eglurhad gennych am y gwaith yr ydych yn ei wneud gydag awdurdodau lleol fel eu bod yn parhau i gyflawni'r ymrwymiad o 1%, a sut y byddwch yn sicrhau na fydd yr ymrwymiad o 1% yn cael ei danseilio gan ostyngiadau i gefnogaeth "anuniongyrchol" arall ar gyfer ysgolion (hy drwy gyflwyno taliadau am wasanaethau, fel nofio, a oedd gynt yn ddi-dâl).**

'Cynnig i Ddisgyblion'

8. Nododd y Pwyllgor eich cyhoeddiad o ran "cynnig i ddisgyblion" yn ystod ein cyfarfod, sy'n cynnwys rhaglenni a gynigir gan sefydliadau (fel Cyngor Celfyddydau Cymru) gydag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni allai'r Pwyllgor ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad at y "cynnig i ddisgyblion" yn eich papur, na dim cyfeiriad at sut y caiff ei ariannu. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y "cynnig i ddisgyblion", gan gynnwys gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael i raglenni neu brosiectau sy'n gysylltiedig ag ef.**

Rhesymoli grantiau i un 'Grant Gwella Addysg'

9. Mae nifer o symudiadau o fewn Camau'r gyllideb adnoddau, sydd, fel y mae eich papur yn egluro, o ganlyniad i Grant Gwella Addysg newydd sy'n cael ei sefydlu. Mae hyn yn dilyn yr ad-drefnu nifer o grantiau awdurdodau lleol. Mae'r Grant Gwella Addysg wedi'i gynnwys mewn llinell wariant newydd yn y gyllideb o fewn y Cam Safonau Addysg.

10. Mae'r Pwyllgor yn nodi eich barn y bydd y 'system grant symlach newydd,' yn 'arwain at fwy o hyblygrwydd a gwell canlyniadau i ddysgwyr yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu, er bod y nifer o grantiau wedi gostwng, nid yw nifer yr amcanion y cawsant eu cynllunio i'w cyflawni wedi lleihau. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yna risg bosibl na fydd rhai o amcanion y grantiau gwreiddiol hynny yn cael ystyriaeth briodol fel rhan o'r dull gweithredu newydd. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd yn sicrhau na fydd amcanion allweddol y grantiau blaenorol yn cael eu "colli" yn y system newydd.**

11. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi eich sylwadau sy'n ymwneud â newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn i gyllideb 2014-15, gan gynnwys gostyngiadau i nifer o grantiau. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn, gan gynnwys gwybodaeth am: pa grantiau yr effeithir arnynt a faint o effaith a fydd; sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar yr arian diogelu o 1% ar gyfer ysgolion; a sut y caiff y gostyngiadau hyn eu hadlewyrchu yng nghyllideb ddrafft 2015-16.**

**Digon o adnoddau i ddarparu Cymwys am Oes**

12. Mae'r Pwyllgor yn nodi eich sylwadau, o ran y cyllid sydd ar gael i ddarparu Cymwys am Oes, "Bydd yr elfen bresennol o wariant yn gorfod llunio'r adnodd a ddefnyddiwn er mwyn gweithredu'r cynllun". **Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o wybodaeth fanwl am sut rydych yn rhagweld y bydd Cymwys am Oes yn cael ei ddarparu, yn seiliedig ar y cyllid sydd ar gael a pha brosesau sydd ar waith gennych i asesu gwerth am arian.**

13. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth bellach ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer yr hyn a elwir gennych yn "ailfodelu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn gyfan gwbl".**

14. Mae'r Pwyllgor yn nodi eich sylwadau fod y cyllid o £1 filiwn a ddyrannwyd yn y gyllideb ar gyfer rhoi adolygiad Donaldson ar waith yn "arian had ar gyfer cychwyn cyntaf y broses". Mae Donaldson, yn eich barn chi, yn debygol o argymell newidiadau mawr i'r cwricwlwm, ac mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd gweithredu newidiadau o'r fath yn gostus. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes unrhyw gyllideb ddangosol ar gyfer 2016-17 o ganlyniad i Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr cyn hynny. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth bellach gennych ynglŷn â sut rydych yn bwriadu talu costau gweithredu adolygiad Donaldson.**

**Addysg ôl-16**

15. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- dadansoddiad o linell wariant yn y gyllideb Grant Dysgu Llywodraeth Cymru;
- y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg; ac
- a oes arian ar gael i liniaru'r effaith ar addysg rhan-amser /19+.

**Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)**

16. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod paragraffau 78-79 o'ch papur yn dweud y bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yn cael eu talu o adnoddau presennol. Mae'r Bil hwn yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'i fwriad yw sicrhau bod y fframwaith Addysg Anghenion Arbennig yn cael ei ddiwygio. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y modd y dylanwadwyd ar gynnwys y Bil gan y cyllid sydd ar gael, a pha gynigion, os o gwbl, yn y Papur Gwyn nad ydynt wedi'u gweithredu oherwydd diffyg cyllid.**

**Materion eraill**

17. Ni chafodd y Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau ar ddau faes pryder penodol oherwydd diffyg amser. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r materion a ganlyn:

*Ysgolion yr unfed ganrif ar hugain*

- Eglurhad o beth y mae'r £43 miliwn yn y llinell wariant y gyllideb 'Cymorth Cyffredinol' ar ei gyfer;
- Y broses ar gyfer adolygu achosion busnes ar gyfer prosiectau, yn ôl fel y bydd sefyllfaoedd ariannol awdurdodau lleol yn newid;
- Sut y gellir gwneud y gorau o effaith y rhaglen drwy ddefnyddio ysgolion o'r fath at ddibenion cymunedol, yn enwedig yng nghyd-destun pwysau sylweddol ar adnoddau awdurdodau lleol.

*Materion trawsbynciol / asesiadau effaith*

- P'un ai a oes asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg wedi'i gynnal, yn benodol mewn perthynas ag Addysg a Sgiliau;
- Eglurhad o sut rydych wedi rhoi 'sylw dyledus' i hawliau plant yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ddrafft, o ystyried nad oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei gyhoeddi.

Yn gywir



**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Children, Young People and Education Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Lesley Griffiths AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

29 Hydref 2014

Annwyl Weinidog,

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 23 Hydref 2014 i drafod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Diben y llythyr hwn yw tynnu sylw at y materion allweddol y mae'r Pwyllgor wedi eu nodi yn ystod ei waith craffu.

Caiff y llythyr hwn ei rannu â'r Pwyllgor Cyllid i'w helpu gyda'i waith craffu cyffredinol ar y gyllideb ddrafft. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth bellach y mae'n gofyn amdani yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl er mwyn llywio'r ddadl derfynol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

**Prosesau asesu effaith**

1. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad o'r effaith ar hawliau plant (CRIA) wedi ei gynnal ar gyfer y gyllideb ddrafft hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at ei Asesiad Effaith Strategol Integredig ar gyfer cyllideb ddrafft 2015-16 gan ddweud ei bod yn ystyried cydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi ac anfantais

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg / Children, Young People and Education Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : CYPCommittee@wales.gov.uk

economaidd-gymdeithasol, hawliau plant a'r iaith Gymraeg, ar y cyd. O ran y gofyniad i roi "sylw dyledus" i hawliau plant, mae eich papur yn nodi:

> “The process of having due regard can range from thinking about the impact of decisions on children in the course of day-to-day work activity, through to the formal application of a structured impact assessment tool accompanied by a record of the outcome results”.

2. O ystyried na chafodd asesiad o'r effaith ar hawliau plant (CRIA) ei baratoi, hoffai'r Pwyllgor gael eich sicrwydd fod hawliau plant wedi cael ystyriaeth briodol fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad manwl o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi newid o ganlyniad i'ch proses asesu effaith.**

**Dechrau'n Deg**

3. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 yn dangos cynnydd o £4.8 miliwn mewn refeniw o gyllideb 2014-15 (o £72.1 miliwn i £76.9 miliwn) a gostyngiad o £1.1 miliwn mewn cyfalaf o gyllideb 2014-15 (o £8 miliwn i £6.9 miliwn).

4. Cyhoeddwyd gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg ym mis Rhagfyr 2013. Roedd ei ganfyddiadau'n cynnwys y canlynol:

- nid oedd gwahaniaeth ystadegol sylweddol rhwng ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd eraill o ran sgiliau gwybyddol ac ieithyddol plant, eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a’u hannibyniaeth / hunanreoliad;
- nid oedd gwahaniaeth rhwng rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a rhieni yn yr ardaloedd cymharol o ran mesuriadau hunanhyder, iechyd meddwl neu amgylchedd y cartref;
- nid oedd gwahaniaeth ystadegol rhwng Dechrau'n Deg a'r ardaloedd cymharol gyfatebol ar gyfraddau imiwneiddio; ac
- nid yw plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio at weithwyr proffesiynol na phlant mewn ardaloedd cymharol.

5. Mae'r Pwyllgor yn nodi eich barn ei bod yn anodd asesu effaith lawn polisi cymdeithasol, yn enwedig lle mae nifer fawr o unigolion yn cymryd rhan yn y rhaglenni. Serch hynny, mae adroddiad gwerthuso Llywodraeth Cymru ei hun yn amlinellu nifer o feysydd allweddol sy'n destun pryder.

6. Ymhellach, mae'n amlwg nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod faint o blant sydd wedi elwa o bob un o bedair elfen y rhaglen. Mae eich papur yn nodi:

> "Officials investigated the feasibility of collecting information which would show how many children had benefitted from all four elements of the programme. It was concluded that this information could not be collected without a significant extra burden on local authorities with little benefit in terms of added insight into the successful operation of the programme."

7. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu asesu effeithiolrwydd y rhaglen hon nac a yw'n rhoi gwerth am arian.

*Dechrau'n Deg – niferoedd y rhai sy'n cymryd rhan*

8. Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â nifer y plant mewn ardal Dechrau'n Deg nad ydynt yn manteisio ar Dechrau'n Deg, dywedodd y swyddog a ddaeth gyda chi na chafodd y wybodaeth honno ei chasglu.

9. Unwaith eto, rydym yn pryderu am y diffyg data a'r wybodaeth sydd ar gael sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg. Mae diffyg gwybodaeth yn yr achos hwn yn golygu nad yw'n bosibl barnu effeithiolrwydd y rhaglenni wrth gyrraedd pob aelod o'r gymuned sy'n gymwys. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cymharu ac asesu cyrhaeddiad y rhaglenni mewn gwahanol ardaloedd.

10. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau sydd gennych ar waith i werthuso effaith Dechrau'n Deg, gan gynnwys unrhyw gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â'r diffyg presennol o ddata mewn rhai ardaloedd.**

*Rhaglenni cyfalaf Dechrau'n Deg*

11. Mae eich papur yn nodi:

> "There are currently more than 70 'live' capital projects and more will come on line when the additional capital funds are confirmed. Within the next six months almost 90% of the 'live' capital projects are due for completion, and the remaining projects will be completed in 2015-16'"

12. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall fod angen darparu neu adnewyddu adeiladau er mwyn sicrhau bod Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno'n effeithiol, yn enwedig mewn rhai cymunedau lle mae diffyg cyfleusterau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gall fod achosion lle nad yw prosiectau cyfalaf yn angenrheidiol a bod modd defnyddio cyfleusterau sydd ar gael eisoes. Mae'r

Pwyllgor yn pryderu ynghylch cadernid asesiadau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y broses asesu ar gyfer prosiectau o'r fath.**

## Teuluoedd yn Gyntaf

13. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi lleihau'r dyraniad cyllideb ar gyfer y rhaglen hon o £46.9 miliwn yng nghyllideb 2014-15 i £43.7 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16.

14. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y gwerthusiad o strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru yn dangos nad yw maint y rhaglennu presennol yn ddigon i gyflawni maint y newidiadau sydd eu hangen. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai un o'r ffyrdd y mae modd rhoi newid ar waith ar raddfa fawr yw drwy gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes cyllid o'r fath ar gael. Felly, **mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y byddwch yn ymdrin â'r her hon yn wahanol, o ystyried y diffyg cyllid ychwanegol.**

15. Nododd y Pwyllgor hefyd fod gwerthusiad cenedlaethol 2014 yn dangos mai dim ond 53% o achosion 'Tîm o Amgylch y Teulu' a ddaeth i ben yn ystod naw mis cyntaf 2013 a oedd yn llwyddiannus o ran y canlyniad a gynlluniwyd ar eu cyfer. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y camau yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd o bryder a nodwyd yn y gwerthusiad.**

## Strategaeth tlodi plant

16. Dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer 'polisi tlodi plant' ar gyfer 2015-16 yw £140,000, sydd heb ei newid mewn termau arian parod ers 2014-15.

17. Canfu gwerthusiad terfynol Llywodraeth Cymru o'i Strategaeth Tlodi Plant (Gorffennaf 2014) y gellid gwneud rhagor i gysylltu strategaethau twf economaidd ag amcanion tlodi; nad oes tystiolaeth gref fod graddfa'r rhaglenni yn ddigon i weithredu maint y newid sy'n angenrheidiol (fel y soniwyd ym mharagraff 14, uchod); a bod y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill wedi cael effaith gyfyngedig o ran rhaglenni newydd neu wrth ddyrannu adnoddau ychwanegol i gyflawni amcanion tlodi plant.

18. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y byddwch yn ymdrin â'r her hon yn wahanol, o ystyried y diffyg cyllid ychwanegol.**

**Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd**


19. Mae'r Pwyllgor yn nodi y cyhoeddwyd y rhai sy'n cael y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd ym mis Gorffennaf 2014, gyda nifer o sefydliadau yn cael gwybod na fyddent yn cael arian mwyach, gan gynnwys Chwarae Cymru a'r Ddraig Ffynci.

20. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyllid o £50,000 wedi ei ddyrannu i Chwarae Cymru ers hynny. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am natur y dyfarniad grant a'r hyn y mae'n fwriad ei gyflawni drwy ei ddefnyddio. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch y broses ar gyfer dyfarnu'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd, o ystyried yr oedd cyfraniad pellach yn ofynnol ar ôl i'r Grant gael ei ddyfarnu.**

21. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Plant yng Nghymru wedi cael £1,874,527 i sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer hawliau plant. Bydd ei waith yn cynnwys sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, codi ymwybyddiaeth, sefydlu a hyrwyddo arfer gorau a rhoi cyngor ar sail tystiolaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â hawliau plant.

22. **Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y camau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod y nifer sy'n cymryd rhan yn cynyddu, yn wyneb rhoi'r gorau i ariannu'r Ddraig Ffynci.**

Yn gywir



**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair